Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlol Gwasanaethau Ymgysylltu â'r Cyhoedd

# BETH AM SIARAD AM IECHYD RHYWIOL

Ymarfer Ymgysylltu Cyhoeddus Y Dyfodol o ran Mynediad at Wasanaethau Iechyd Rhywiol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)

# BETH YW GWASANAETHAU IECHYD RHYWIOL AC ATGENHEDLOL (IRhA)?

Mae Gwasanaethau Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlol yn **darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ynghylch ystod o faterion iechyd rhywiol**, fel Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol (STI's), atal cenhedlu, perthnasau, yn ogystal â beichiogrwydd heb ei gynllunio. Yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen), rydym ar hyn o bryd yn cynnig ystod o wasanaethau, chwe diwrnod yr wythnos.

Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys:

- Ystod o ddulliau atal cenhedlu, profion beichiogrwydd, profion am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, cytoleg (profion ceg y groth, sgrinio serfigol)
- Gwasanaethau i grwpiau sy'n agored i niwed o fewn y gymuned (Allgymorth)
- Triniaeth ar gyfer heintiau cymhleth a drosglwyddir yn rhywiol a Thriniaeth HIV
- Brechu ar gyfer Hepatitis, Feirws Papiloma Dynol (HPV)
- Clinigau ar gyfer gofal erthylu, cwnsela seicorywiol a'r menopos
- Fasdoriadau

# PAM YDYM YN SIARAD AM WASANAETHAU IECHYD RHYWIOL AC ATGENHEDLOL?

Ers cyflwyno'r model 'Cynllunio Teulu' gwreiddiol yn ôl yn y 1950au, nid yw Gwasanaethau IRhA wedi esblygu llawer. Erbyn hyn, dros 70 mlynedd yn ddiweddarach, mae ein cymunedau wedi tyfu, fel y mae eu hanghenion. Rydym eisiau cynnig gwasanaeth sy'n adlewyrchu'r anghenion modern hynny. Cafwyd sawl factor sy'n sbarduno newid, gan gynnwys profiadau cleifion, y galw am wasanaethau, yn ogystal â materion o ran staffio a chyfleusterau. Dros y tair blynedd diwethaf, bu'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddatblygu model iechyd rhywiol integredig, lle caiff anghenion iechyd rhywiol cyfannol y claf eu diwallu mewn un lleoliad. Gwnaed hyn mewn ymateb i'r canlynol:

- Natur newidiol y modd y mae cleifion yn cael mynediad at wasanaethau iechyd rhywiol (Meddygon Teulu, Fferyllfeydd, cyfleusterau addysg a hamdden, ynghyd â chyflwyno pecynnau profi gartref, e-ymgynghori – ceir rhagor o fanylion isod), ynghyd â pha mor aml y maent yn defnyddio gwasanaethau (cyflenwadau blynyddol o bils, pigiadau atal cenhedlu y gall cleifion eu rhoi i'w hunain).

- Bu cynnal y lefel hon o ddarpariaeth gwasanaeth ar draws cymaint o safleoedd yn fwy a mwy anodd oherwydd yr her o ran recriwtio nyrsys a meddygon ym maes iechyd rhywiol. Mae'r pwysau'n drymach fyth o ganlyniad i'r amser a dreulir yn teithio i gymaint o safleoedd, sy'n lleihau capasiti ymhellach. Ar adegau, bu gorfod cau clinigau ar y funud olaf oherwydd hyn.

- O safbwynt logisteg, yr heriau sydd ynghlwm wrth wasanaethu cymaint o safleoedd (y mae sawl un ohonynt yn darparu clinigau yn anaml, gydag ychydig iawn o ddefnyddwyr yn eu defnyddio) yw’r rheiny yn nhermau offer, stoc, casglu samplau a darparu’r cyfuniad iawn o sgiliau ymhlith staff er mwyn darparu gwasanaeth cynhwysfawr.

## Canolbwynt yr Ymgysylltiad Hwn

Trefn y Gwasanaethau Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlol at y dyfodol ar draws ardaloedd lleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, sef yn benodol:

Cychwyn trafodaeth â chymunedau lleol ledled ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ynghylch natur y modd y gellir cael mynediad at wasanaethau iechyd rhywiol yn y dyfodol.

Bydd yr ymgysylltiad hefyd yn rhannu gwybodaeth o ran:

- Beth yw Gwasanaethau Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlol (IRhA)
- Pwy sydd angen Gwasanaethau IRhA efallai
- Yr heriau a wynebir gan Wasanaethau IRhA (gan gynnwys yn ystod COVID-19)
- Sut y darperir Gwasanaethau IRhA ar hyn o bryd
- Y cynnig newydd o ran sut y gellir cyflenwi Gwasanaethau IRhH

## PWY SY’N CYMRYD RHAN YN YR YMGYSYLLTU?

Mae’r cyfle hwn i ymgysylltu yn cael ei arwain gan:

- Yr Is-adran Teulu a Therapïau - Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

Y poblogaethau a gynhwysir yw:

- Blaenau Gwent
- Torfaen
- Sir Fynwy
- Caerffili
- Casnewydd
- De Powys*

* Gall preswylwyr De Powys gael mynediad at ystod o wasanaethau yn ardal BIPAB, gan gynnwys gwasanaethau hunanatgyfeiriad ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, ynghyd â gwasanaethau arbenigol trwy atgyfeiriad gan eu Meddyg Teulu

# Natur y Modd y Ceir Mynediad at Wasanaethau Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlol ar Hyn o Bryd

Darperir Gwasanaethau IRhA ar dair lefel. Mae'r tablau isod yn dangos lefelau'r gofal a ddarperir ac yn lle mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn darparu ei glinigau ar hyn o bryd:

| | |
|---|---|
| Lefel 1 (a ddarperir o bob clinig) | - Profion beichiogrwydd<br>- Condomau<br>- Pils atal cenhedlu<br>- Pigiadau atal cenhedlu<br>- Cytoleg (profion ceg y groth, sgrinio serfigol)<br>- Profi am Glamydia a Gonorea lle nad oes gan glaf symptomau<br>- Triniaeth ar gyfer Clamydia anghymleth |
| Lefel 2<br><br>(dim ond ar gael mewn clinigau cymunedol pan fo aelod staff arbenigol ar gael) | - Gosod a thynnu mewnblaniadau atal cenhedlu<br>- Coiliau atal cenhedlu<br>- Diagnosis a thriniaeth ar gyfer Herpes, rhai Dafadennau Gwenerol, triniaeth ar gyfer Clamydia cymhleth<br>- Allgymorth/gofal a rheolaeth o rai sy'n agored i niwed sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol<br>- Profion gwaed ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a gludir yn y gwaed |
| Lefel 3 (dim ond o Ganolfan Cordell ar hyn o bryd) | - Brechu – Hepatitis, Feirws Papiloma Dynol<br>- Yr holl heintiau cymhleth a drosglwyddir yn rhywiol y mae eu profion yn gofyn am fynediad prydlon i labordai – Siffilis, HIV, Gonorea, Dafadennau sy'n gofyn am gryotherapi, cleifion â symptomau o ran lympiau, chwyddau, rhedlifau ac ymddygiad rhywiol sy'n peri risg uchel<br>- Diagnosis HIV<br>- Proffylacsis Ôl-gysylltiad (PEP) â HIV<br>- Triniaeth yn dilyn ymosodiadau rhywiol |
| Gwasanaethau lefel 3 arbenigol eraill a ddarperir gennym (Nid oes unrhyw gynlluniau i newid y rhain ar hyn o bryd) | - Gofal Menopos Arbenigol<br>- Tynnu mewnblaniadau dwfn a rheoli cymhlethdodau o ran mewnblaniadau<br>- Rheoli Coiliau Cymhleth<br>- Cwnsela seicorywiol<br>- Gofal erthylu<br>- Rheoli HIV a Phroffylacsis Cyn-gysylltiad (PREP) â HIV |

# Ein Cynnig yn Gryno – Newid Gwasanaethau Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlol o'r Gwaelod i Fyny

## Yn Gryno

I wella mynediad at Wasanaethau IRhA, cynigiwn ein bod yn:

1. Cynnig system frysbennu dros y ffôn i'r mwyafrif o gleifion, a fydd yn cynnig apwyntiadau ymatebol yn nes at adref
2. Darparu hwb iechyd rhywiol ym mhob bwrdeistref sirol (Blaenau-Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen)
3. Cynnal rhai clinigau 'galw i mewn' mewn safleoedd lloeren ar draws pob bwrdeistref sirol lle canfuwyd anghenion penodol, e.e. pobl ifanc
4. Oriau estynedig, gan gynnwys gyda'r nos ac ar ddyddiau Sadwrn yn ein hybiau a'n canolfannau lloeren


Mae'n bwysig i ni fod cymunedau'n cael dweud eu dweud o ran sut y mae eu gwasanaethau'n gweithredu ac felly byddwn yn ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r cyfle hwn i ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhedeg am 8 wythnos o'r 15fed Tachwedd 2021 hyd at 10fed Ionawr 2022.

## MANTEISION Y MODEL ARFAETHEDIG

Bydd y model newydd yn gwella gwasanaethau ar gyfer pob ardal awdurdod lleol. Yn lle gorfod teithio i Gasnewydd ar gyfer anghenion IRhA, bydd gan bob bwrdeistref ei phrif glinig IRhA ei hun (y cyfeirir atynt fel Hybiau hefyd). Byddwn yn dal i weithredu 'gwasanaeth galw i mewn' a fwriedir yn bennaf ar gyfer pobl ifanc ar draws safleoedd lloeren (y cyfeirir atynt yn Saesneg fel 'Spokes').

Gweler isod restr o fanteision:

- Cynyddu nifer yr apwyntiadau a gynigir y tu allan i'r oriau 9-5 arferol (estynnir hyn tan 7:30pm mewn rhai safleoedd).
- Dim angen i gleifion deithio i Gasnewydd os oes ganddynt symptomau. Bydd clinig arbenigol (hwb) ym mhob bwrdeistref ar gyfer profion a thriniaeth yng nghyswllt Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol. Felly mae mwy o ofal arbenigol ar gael yn y gymuned.
- Llai o amser teithio i staff rhwng safleoedd, sy'n golygu gallu treulio mwy o amser gyda chleifion.





## A YDYM WEDI YSTYRIED YN LLE Y GELLIR LLEOLI SAFLEOEDD?

Do – ond mae llawer o bethau i'w hystyried, gan gynnwys cludiant cyhoeddus da, parcio da, niferoedd uchel o bobl ifanc yn defnyddio gwasanaethau (yng Nghil-y-coed er enghraifft), adeiladau sy'n addas i'r diben. Hefyd, yn enwedig yn Sir Fynwy, mae nifer uchel o Feddygon Teulu'n cyflenwi gwasanaethau atal cenhedlu, gan gynnwys y coil.

Ar ôl ystyried yr amryw agweddau ac adolygu'r lleoliadau a mynediad iddynt ar hyn o bryd, amlinellir y 'ffit orau' isod. Mae'r model newydd hwn yn rhagweld gostyngiad o'r 17 safle presennol i'r 11 safle a ddangosir isod:

### Y MODEL PRESENNOL



## Y MODEL ARFAETHEDIG




# Cwestiynau Cyffredin (FAQs)

Gwiriwch y Cwestiynau Cyffredin ynghylch y cynnig newydd trwy **glicio yma.**

# Sicrhau Bod Eich Llais yn Cael ei Glywed, Dweud eich Dweud

Rydym wir yn gwerthfawrogi cyfraniad ein cymunedau lleol i'n helpu ni i wella mynediad at Wasanaethau Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlol ar draws Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Rydym yn gweithio'n agos â Chynghorau Iechyd Cymuned (CIC'au) ac amryw sefydliadau sy'n bartneriaid i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn cael gwybod am y cynnig hwn, ac yn cael y cyfle i rannu eu barnau. Gallwch chwarae rhan mewn sawl modd:

## Ymunwch â Ni Mewn Digwyddiad Ymgysylltu Ar-lein

Byddwn hefyd yn cynnal amryw ddigwyddiadau ymgysylltu ar-lein ac yn croesawu unrhyw un i ymuno â ni i gael clywed mwy am y cynigion, a hefyd i godi unrhyw gwestiynau sydd ganddynt efallai. Gweler isod ddyddiadau ac amseroedd ein digwyddiadau ymgysylltu lleol a gynhelir trwy Microsoft Teams:

**Dydd Iau 25ain Tachwedd 2021, 4-5pm**

**Dydd Llun 29ain Tachwedd 2021, 1130am-1230pm**

**Dydd Mawrth 7fed Rhagfyr 2021, 6-7pm**

Os hoffech fynychu unrhyw rai o'r digwyddiadau cyhoeddus, e-bostiwch ABB.Engagement@wales.nhs.uk i gofrestru, byddwch wedyn yn derbyn y manylion ar gyfer ymuno â'r digwyddiad trwy'r e-bost.

## Cyflwynwch Eich Syniadau Ar-lein

I gael dweud eich dweud, cliciwch ar y ddolen isod i gwblhau'r arolwg ar y cynnig newydd.

https://www.smartsurvey.co.uk/s/SARHservices2021/

## Cwblhewch yr Arolwg Yn Bersonol

Os hoffech y cyfle i gwblhau copi wedi'i argraffu o'r arolwg, bydd y rhain ar gael ym mhob un o'n Clinigau Iechyd Rhywiol. Ar ôl ei gwblhau, rhowch eich ymateb i'r arolwg i dîm y dderbynfa yn y clinig.

## Cael gwybod Mwy

Crynodeb yw'r ddogfen a ddarllenwyd gennych yma o ddarn llawer mwy o waith. Os oes gennych ddiddordeb mewn cael rhagor o fanylion, gallwch ddarllen ein 'Dogfen Lawn' trwy glicio yma.